

**2018 Rhif (Cy.)**

**2018 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042  
(Cylchfan Grove Park, Casnewydd  
i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2018

The A4042 Trunk Road (Grove  
Park Roundabout, Newport to  
Cwmbran Roundabout, Torfaen)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2018

*Gwnaed* 7 Mawrth 2018

*Made* 7 March 2018

*Yn dod i rym* 9 Mawrth 2018

*Coming into force* 9 March 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park, Casnewydd i Gylchfan Cwmbrân, Torfaen) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 9 Mawrth 2018.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Grove Park Roundabout, Newport to Cwmbran Roundabout, Torfaen) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 9 March 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2.—(1) In this Order:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 9 Mawrth 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

### Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y’i dangosir gan arwyddion traffig.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Mawrth 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 9 March 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

### Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule.

### Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

7 March 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

### SCHEDULE

The length of the trunk road between its junction with the northern side of Grove Park Roundabout, Newport and its junction with the southern side of Croes-y-mwyalch Roundabout, Torfaen.

The length of the trunk road between its junction with the northern side of Croes-y-Mwyalch Roundabout and its junction with the southern side of Crown Roundabout, Torfaen.

The length of the trunk road between its junction with the northern side of Crown Roundabout and its junction with the southern side of Turnpike Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen.

The length of the trunk road between its junction with the northern side of Turnpike Roundabout and its junction with the southern side of Edlogan Way Roundabout, Torfaen.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen.

The length of the trunk road between its junction with the northern side of Edlogan Way Roundabout and its junction with the southern side of Cwmbran Roundabout, Torfaen.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042  
(CYLCHFAN GROVE PARK, CASNEWYDD I  
GYLCHFAN CWMBRÂN, TORFAEN)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Grove Park, Casnewydd a Chylchfan Cwmbrân, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Amlinellir y trefniadau ar gyfer llwybrau eraill ynnddi hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am y tro cyntaf ar 9 Mawrth 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n bosibl, bydd hysbysiad ynghylch cau'r ffordd yn cael ei arddangos tua wythnos ymlaen llaw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN  
Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

Y darn o'r A4042 rhwng Cylchfan Grove Park, Casnewydd a Chylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

Y darn o'r A4042 rhwng Cylchfan Croes-y-mwyalch a Chylchfan Crown, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwynt y cau).

**THE A4042 TRUNK ROAD (GROVE PARK  
ROUNDAABOUT, NEWPORT TO CWMBRAN  
ROUNDAABOUT, TORFAEN) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Grove Park Roundabout, Newport and Cwmbran Roundabout, Torfaen.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A4042 specified in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also outlined therein.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to first come into force on 9 March 2018 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Whenever possible, notice of closures will be displayed approximately one week in advance.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE  
Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

The length of the A4042 between Grove Park Roundabout, Newport and Croes-y-Mwyalch Roundabout, Torfaen.

The length of the A4042 between Croes-y-Mwyalch Roundabout and Crown Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained southbound from Cwmbran Roundabout to point of closure).

Y darn o'r A4042 rhwng Cylchfan Crown a Chylchfan Turnpike, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch a thua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwyntiau'r cau).

Y darn o'r A4042 rhwng Cylchfan Turnpike a Chylchfan Edlogan Way, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch a thua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwyntiau'r cau).

Y darn o'r A4042 rhwng Cylchfan Edlogan Way a Chylchfan Cwmbrân, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch hyd at bwynt y cau).

### **Llwybrau Eraill**

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyrriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r A4042 a ddisgrifir uchod ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A4042 Heidenheim Drive, yr A4051 Malpas Road a'r A4051 Cwmbran Drive, fel y bo'n briodol.

The length of the A4042 between Crown Roundabout and Turnpike Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout and southbound from Cwmbran Roundabout to points of closure).

The length of the A4042 between Turnpike Roundabout and Edlogan Way Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout and southbound from Cwmbran Roundabout to points of closure).

The length of the A4042 between Edlogan Way Roundabout and Cwmbran Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout to point of closure).

### **Alternative Routes**

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the A4042 described above is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the A4042 Heidenheim Drive, A4051 Malpas Road and A4051 Cwmbran Drive, as appropriate.